CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION GORFFENNAF 16, 2019

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanfachreth
Nos Fawrth, Gorffennaf 16, 2019 am 7:30 o'r gloch.

www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Cynghorwyr: Peredur Jenkins, (Cadeirydd), Llion Rh. Williams, Gerallt Griffith a Karen G. Goswell. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Mordaf Roberts, Emlyn Roberts.

3. Datgan diddordeb.

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mehefin 18, 2019

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Mehefin 18, 2019

Eitem 9.b. Llythyr ateb (21/6/2019) oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyda gwybodaeth am Llysiau'r Dail (Japanese knotweed).

Anfonwyd y wybodaeth i'r aelodau. Mae fwy o wybodaeth ar https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/japanese-knotweed/?lang=en

Eitem 8.a. Llythyr ateb (25/6/2019) oddi wrth Archwilydd Mewnol yn rhoi gwybod bod gwybodaeth lawn ar ein gwefan. Roedd y wybodaeth ar www.cyngorllanfachreth.cymru
Awgrymodd Elfed ap Gomer, ein harbenigwr ar y wefan, i gynnwys cyfeiriad ein gwefan, sef www.cyngorllanfachreth.cymru ,ar ein Hagenda a Chofnodion i hwyluso cael ein gwybodaeth.

Anfonwyd y dogfennau i BDO ar 25/6/2019.

Penderfynwyd enwi'r wefan yn 'Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Brithdir'.

Eitem 6.b. Llythyr ateb (2/7/2019) oddi wrth Clwb Modur Harlech a'r Cylch yn rhoi gwybod:

1) Mae pob tŷ sydd ar y ffordd mae'r rali yn pasio yn cael llythyr gan y clwb.

2) Mae gan bob car yswiriant ar gyfer unrhyw ddifrod i ffens neu wal ac mae gan y Clwb yswiriant eu hunan.

Ni wnaethpwyd dim difrod. Ond os mae difrod ini gysylltu â'r Clwb.

Eitem 5. Eitem 11.b.2. Mae bin Doluwchadda yn hanner llawn. Mae binniau Capel Siloh, Ffridd Goch a Tyn Mynydd yn llawn.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (26/6/2019) oddi wrth Traffig Cymru, Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod am waith ailwynebu bydd yn cael ei wneud ar ffordd A494 rhwng Bontnewydd - Rhydymain. Bydd y gwaith yn cychwyn ar 1/07/2019 ac yn gorffen 15/7/2019.

b. Llythyr (27/6/2019) oddi wrth Traffig Cymru, Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod am waith ailwynebu bydd yn cael ei wneud ar ffordd A494 rhwng Hywel Dda - Rhydymain. Bydd y gwaith yn cychwyn ar 2/07/2019 ac yn gorffen 16/7/2019.

c. Llythyr (1/7/2019) oddi wrth fyfyriwr o Brifysgol Lerpwl. Amgáu mae holiadur angen gwybodaeth gan gynghorwyr ar ail gartrefi yn y sir.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r cynghorwyr.

ch. Llythyr (15/7/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am eu Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol bydd yn cael ei gynal dydd Sadwrn Hydref 5, 2019 yn Pafiliwn Bont, Pontrhydfendigaid. Thema cynhadledd bydd 'Rôl Cynghorau Cymuned a Thref i'r Dyfodol'. Amgáu mae ffurflen gofrestru, Agenda Cynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru (9.30 - 2.15), ac Agenda Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru (2.15 – 3.05).

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (18/6/2019) yn rhoi gwybod am Ddiwrnod Agored prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru ar ddydd Iau, Medi 5 am 10.30 – 2.30yp, yn Neuadd Bentref Ganllwyd ac yn cynnwys taith gerdded ar Ystad Dolmelynllyn. Os am fod yn bresennol maent angen gwybod cyn Mehefin 28.

b. Llythyr (18/6/2019) yn rhoi gwybod maent yn cynnal cyfarfodydd blynyddol gyda Chynghorau Tref a Chymuned. Mae cyfarfod yn Plas Tan y Bwlch, Maentwrog ar Hydref 1, 2019 am 6.30yh i 8.30yh. Prif ffocws rhaglen y noson bydd gwaith y Gwasanaeth Wardeinio. Bydd fwy o wybodaeth ymhellach ymlaen.
c. Cais cynllunio NP5/54/137C. Trosi tŷ gwair agored yn llety gwyliau tymor byr gan gynnwys adeiladu ports a veranda. Tir Mab Cynan, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

ch. Llythyr (9/7/2019) yn rhoi gwybod mae ymgynghoriad cyhoeddus ar Canllaw Cynllunio Atodol Drafft: Tai Fforddiadwy. Mae'r wybodaeth ar gael yn eu swyddfa, llyfrgelloedd cyhoeddus, ar wefan:https://www.eryri.llyw.cymru/planning/planning-policy/Supp-Planning-Guidence?name Dylid anfon ymatebion cyn 18/9/2019.

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (17/6/2019) oddi wrth Mr Gerallt Jones (Cyn-ysgrifennydd), Pwyllgor Neuadd Rhydygorlan yn cynnwys copi o Fantolen 2017-2018 y Neuadd. Mae Mr Jones yn ymddiheuro ni roddwyd y Fantolen gyda'i lythyr diolch am y rhodd ariannol; roedd hyn oherwydd problemau technegol. Maent ar hyn o bryd yn hysbysebu am Ysgrifennydd newydd. Hwyrach bydd gan Meurig, Rhun neu Llion gwybodaeth am yr Ysgrifennydd newydd.

b. Costau'r Clerc am Ebrill 1, 2018 - Mawrth 31, 2019:

Swm am: stampiau + papur + amlenni + inc: £390.36.

Penderfynwyd talu'r swm.

c. I gydymffurfio â gofynion BDO awgrymwn adolygu polisiau yn cyfarfod mis Medi. Hefyd paratoi ein cyllideb yn cyfarfod mis Tachwedd.

Penderfynwyd cytuno â'r awgrym.

ch. Llythyr (15/7/2019) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Llanfachreth yn diolch am ein rhodd o £500.

d. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Mehefin, 2019: £1,139.13.

dd. Balans yn y banc ar 29 Mehefin, 2019: £3,884.06.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

a. Mae Cyngor Gwynedd wedi cael yr hawl i adeiladu tai.

10. Unrhyw fater arall

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen tocio coed i gael gweld arwyddion 30 yn Llanfachreth.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Mr Dafydd Ellis-Thomas, A.C., (Swyddfa'r Etholiad, 7, Bank Place, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9AA.) a Mrs Liz Saville Roberts (Swyddfa'r Etholiad, Angorfa, Heol Meurig, Dolgellau, LL40 1LN) bod trigolion ardal Llanfachreth yn anhapus gyda safon y gwasanaeth maent yn eu cael gyda defnyddio ffôn symudol. Mae ambell i ardal methu cael signal i ddefnyddio ffôn ac mae hyn yn creu

anhawster i'r trigolion yn enwedig os mae gwaith busnes angen i'w wneud. Hwyrach mae gan Mr Thomas a Mrs Roberts dylanwad ar gwmnïau teleffon i roi gwasanaeth derbyniol i'r ardal.

Llofnod: Dyddiad: